



Chwaraeon

derbyn y wobr glodfawr hon yn
goron ar gyfres o lwyddiannau i'r
gwesty. Ym mis Gorffennaf
dyfarnwyd Gwobr Penderyn am
Fwyty'r Mis i Ynyshir am
ansawdd uchel y bwyd, ac yna
ym mis Hydref enillodd Wobr
Aur 'Croeso Cymru' am y
drydedd flwyddyn o'r bron, fel
cydnabyddiaeth o safon uchel eu
lletygarwch a'r cysur eithriadol a
gynigir gan y gwesty.

Llongyfarchiadau i'r Rheolwr
Cyffredinol, Joan Reen, a'r Chef,
Shane Hughes, a'r tîm o staff
ymroddedig a gweithgar ar eu
llwyddiant.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Geraint Evans (01970) 832473
Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion. post@garnwen.org.uk
Tynnu lluniau: Cysyllter â golygyddion y mis.
Teipyddes: Carys Briddon

Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Parsel Henllys: Dilys Morgan, Alltgoch 832498
Eglwysfach: Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais (01654) 781312
Taliesin: Mai Leeding, Glannant, Taliesin 832672
Tal-y-bont: Aileen Williams, Maesmeillion 832438
Kathleen Richards, Y Bryn 832201
Tre'r Ddôl: Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl 832429
Janet Evans, Cefngweiriog (01654) 781260
Maes y Deri: Eirlys Jones, 91 Maes y Deri 832483

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Geraint Pugh, Dôl Pistyll 832433
Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont 832384
Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont 832560
Aileen Williams, Maesmeillion 832438
Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais (01654) 781312
Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds
Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones,
Eurllys Jones (Tanysgrifiadu)

Cadeirydd:
Is-gadeirydd:
Ysgrifennydd:
Trysorydd:
Aelodaeth:
Hysbysebion:
Plygu:
Dosbarthwyr:

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Llythyron

Llysteg,
Taliesin

Hoffwn fanteisio ar golofn
llythyron *Papur Pawb* i ddiolch i
bawb am y cardiau a'r galwadau
ffôn a dderbyniais pan oeddwn
yn yr ysbyty'n ddiweddar.

Diolch i bawb.
Ann Humphreys

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Gwahoddir ceisiadau am
gymorth ariannol oddi wrth
gymdeithasau a mudiadau
gwirfoddol o fewn y gymuned.
Dylid anfon ceisiadau ynghyd
â chopi o'r fantolen
ddiweddaraf at y Clerc,
Gwilym Huws, Pengwern,
Tal-y-bont, Ceredigion, SY24
5EN, erbyn dydd Mawrth 3
Chwefror 2009 fan bellaf.

Cronfa Eleri

Blwyddyn 2008 – £13,000 i'w rannu
Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau
sy'n cydnaws ag amcanion y Gronfa

Ffurflen gais ar gael oddiwrth: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ

Tel: 01970 832551 e-bost: iolo.apgwynn@tiscali.co.uk

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 17eg 2009


Amcanion Cronfa Eleri
'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol
cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'



CANTORION DYFI

Cyngerdd yn Eglwys St
Mihangel, Eglwysfach
Nos Sul 14 Rhagfyr
am 7 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

Gwasanaeth Scanio ARTHUR MORGAN


Pencofen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Dymuno Nadolig Dedwydd

Hoffai John Davies, Dolclettwr,
Tre'r-ddôl, ddymuno Nadolig
dedwydd iawn, a Blwyddyn
Newydd Dda, i'w deulu a'i holl
ffrindiau yn yr ardal. Cofion
cynnes atoch i gyd.



Dyddiadur

RHAGFYR

- 14

Bethel 2 Gweinidog
Nasareth
Rehoboth Oedfa Nadolig
Plant y Garn
Eglwys Dewi Sant 2.30
Gosber a Chymun
- 16

CFfi Tal-y-bont a'r Cylch
– Canu Carolau
- 17

Pwyllgor Sioe Tal-y-bont –
Gyrfa Chwist yn y Neuadd
Goffa
- 21

Bethel 10 Gweinidog
(Cymun)
Nasareth
Rehoboth 10 Ifan Mason
Davies
Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaidd
Eglwys St Pedr, Elerch
2.30 Cymun Bendigaidd
Merched y Wawr
Tal-y-bont a'r Cylch –
Gwasanaeth Nadolig am 6
ym Methel
- 24

Bethel 5.30 Gwasanaeth
Nadolig yr Ysgol Sul
- 25

Bethel 10 Gwasanaeth Bore
Nadolig Gweinidog
Eglwys St Pedr, Elerch 8 y
bore, Cymun Bendigaidd
Eglwys Dewi Sant –
Gweler yr Hysbysfwrdd
- 28

Bethel 5 Gweinidog
Nasareth
Rehoboth 3.30 Bugail
Eglwys Dewi Sant –
Gweler yr Hysbysfwrdd

CYMDEITHAS SIOE TAL-Y-BONT

GYRFA CHWIST DOFEDNOD

Neuadd Goffa Tal-y-bont
17 Rhagfyr, 2008

8 o'r gloch

Cylch Meithrin Tal-y-bont

Noson Goffi

Rhagfyr 15fed
yn y Neuadd Goffa
6.30yh
Oedolion £2.00

Stondinau cacennau a chrefft,
twba lwcus, raffl

CROESO CYNNES I BAWB

- IONAWR 2009

4

Bethel 10 Uno yn Nasareth
Nasareth 10 Parch W.R.
Morris
Rehoboth 10 Ifan Mason
Davies
Eglwys Dewi Sant –
Gweler yr Hysbysfwrdd
Eglwys St Pedr 2.30
Hwyrol Weddi
- 6

CFfi Tal-y-bont a'r Cylch
– Bingo
- 8

Sefydliad y Merched,
Tal-y-bont – Cinio yng
Nghlwb Golff y Borth
- 11

Bethel 2 Gweinidog
Nasareth 5 Parch J. Tudno
Williams
Rehoboth 10 Bugail
Eglwys Dewi Sant –
Gweler yr Hysbysfwrdd

Nadolig Llawn!

Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda i'm teulu a'm
ffrindiau a holl ddarllenwyr
Papur Pawb. Diolch yn fawr
iawn i bawb am eu
caredigrwydd drwy gydol y
flwyddyn.

Oddi wrth Kathleen Richards,
Bryn, Tal-y-bont.



Os am gynnwys manylion am
weithgareddau eich mudiad neu'ch
sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech
anfon y manylion llawn at Aileen
Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont
(01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod
cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD



Golygyddion y rhifyn hwn oedd
Eleri a Gwilym, gyda Ceri'n
dylunio. Golygyddion y rhifyn
nesaf fydd Medi (832725;
llanerch@globalnet.co.uk), Nic
(832001) a Fran, gydag Elgan yn
dylunio. Dylai'r deunydd fod yn
llaw'r golygyddion erbyn 2 Ionawr
2009, a bydd y papur ar werth
ddydd Gwener 9 Ionawr.

Pen-blwydd Arbennig
Llongyfarchiadau i Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont, ar achlysur ei ben-blwydd yn 80 oed ddydd Gwener 12 Rhagfyr.

Yn Gwilym rwyf yn gweled –
hafau'r haidd,
y fro a'i chymuned.
A gwerin llaw agored
a gara iaith, cadarn gred.
Gwenallt Llwyd Ifan


Diolchiadau
Dymuna Dilys Hughes, Llys Awel, Tal-y-bont, a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli un oedd mor annwyl ganddynt, sef Linda Elisabeth Peers. Diolch am y blodau, y cardiau a'r llythyron, y galwadau ffôn a'r ymweliadau yn y tŷ. Diolch hefyd am y cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at gronfa'r nyrsys – roedd y cyfanswm dros £1,200. Diolch i chi i gyd.

Dymuna David, Elspeth, Ffion ac Elfed ddiolch yn garedig iawn i bawb a alwodd gyda ni, ac am y cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd yn ein profedigaeth o golli Dada a Dat-cu. Hefyd, diolch i'r holl chwirydd fu'n helpu gyda'r bwyd yng ngwaelod y Neuadd Goffa ac am eich cyfraniadau, a gyflwynir i Eglwys Bethel a Meddygfa'r Borth.

Dymuna teulu'r ddiweddar Mary E. Ellis ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd, am bresenoldeb pawb yn yr angladd ac am eu cyfraniadau tuag at Ward Rheidol, Ysbyty Bronglais. Diolch i bawb hefyd am eu gwasanaeth ar ddydd yr angladd.

Genedigaeth Wyr
Llongyfarchiadau i Janet a John Morgan, Moelgoch, Tal-y-bont, ar enedigaeth wyr bach arall yn Seland Newydd, sef Harry Alexander a aned ar 8 Tachwedd yn fab i Rachel a Nigel Butcher, a brawd bach i George a Ben. Mae Janet a John ar bigau'r drain eisiau mynd draw i Auckland i weld yr ychwanegiad diweddaraf i'r teulu!

Yn yr Ysbyty
Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i ddwy o Dal-y-bont sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd, sef Miss Henry, Stryd Newydd, a Mrs Dwynwen Jones, Brooklyn. Anfonwn ein cofion cynnes hefyd at Mr John Bond, Taliesin, a fu yn yr ysbyty yn ystod y mis.



Tlws i Dewi

Llongyfarchiadau i Dewi Jenkins, Tynygraig, am ennill y wobr gyntaf am farnu carcas ŵyn yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd ar Ragfyr 1af, yn y dosbarth C.Ff.I. 16 oed neu iau. Enillodd dlws 'Welsh Royal Crystal', a chan fod tim Ceredigion wedi dod yn gyntaf hefyd, cafodd y 4 aelod o'r tîm dlws arall. Dewiswyd y tîm yn lladd-dy Dunbia (Oriel Jones), Llanybydder cyn y Ffair Aeaf.



Dathlu Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Eurllys Jones, Eurfan, Tal-y-bont, a ddathlodd ben-blwydd arbennig ar 3 Tachwedd. I nodi'r achlysur, aeth Rhian â'i mam i Gaeredin am wyliau bach, ac ar y ffordd yn ôl fe gwrddodd y ddwy â thri go arbennig ym maes awyr Caerdydd, fel y gwelir yn y llun! Tybed ai tactegau Eurllys oedd yn gyfrifol am fuddugoliaeth tîm rygbi Cymru yn erbyn Awstralia yn fuan wedyn?!

Cydymdeimlad
Cydymdeimlwn â Gareth a Bev Pritchard, Garthgwyn, Tre'r-ddôl, ar farwolaeth mam Gareth yn ddiweddar. Buont yn byw yn Nhynrhelig rai blynnyddoedd yn ôl. Cydymdeimlwn hefyd â Tyrone Joule, Gerynant, Tal-y-bont, a gollodd ei dad ar 18 Tachwedd.

Pen-blwydd arbennig
Llongyfarchiadau i Dewi Evans, Pen-y-graig, Bont-goch a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar Ddydd Nadolig. Dymunwn yn dda iddo yn dilyn ei ymddeoliad ar ddiwedd y flwyddyn.

Brysiwch Wella
Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i John Rowlands, Hen Hafod, Tre'r-ddôl, a dderbyniodd lawdriniaeth yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin, yn ddiweddar.

Cydymdeimlad
Cydymdeimlwn â holl deulu a ffrindiau y ddiweddar Mrs Mary E. Ellis, Lerry View, Tal-y-bont, a fu farw yn Ysbyty Bronglais ddydd Llun 24 Tachwedd yn 91 oed. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Dewi Sant, Tal-y-bont, ddydd Gwener 28 Tachwedd. Ceir teyrnged iddi yn y rhifyn hwn.

Llyfr Newydd i Awdur Lleol
Llongyfarchiadau i Morgan Tomos, Pentrebach, ar ymddangosiad ei gyfrol ddiweddaraf, *Alun yr Arth ar y Môr*, a gyhoeddir gan Y Lolfa, lle mae Morgan yn gweithio fel cynrychiolydd gwerthiant. Byddai'r llyfr yn anrheg ddelfrydol i'w rhoi yn hosan rhyw blentyn bach y Nadolig hwn, a'r pris yw £2.95.

Ymddeoliad Hapus
Ar ddiwedd y flwyddyn, bydd Aeron Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont, yn ymddeol o'i swydd yn IBERS, sef Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Prifysgol Aberystwyth, lle bu'n gweithio ers 34 o flynyddoedd. Dymunwn ymddeoliad hir a hapus iawn iddo ef ac Aileen.

Dyddiau Da
Llongyfarchiadau i Anne-Marie Bizart, Wern-deg, Tal-y-bont, ar ennill gwobr Llyfrgell Ceredigion yng nghystadlaethau 'Dyddiau Da' llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru.



Ffair Nadolig Neuadd Goffa Tal-y-bont

Ers sawl blwyddyn bellach, mae pnawn Sadwrn olaf Tachwedd yn bnawn Ffair Nadolig y Neuadd Goffa, ac unwaith eto eleni cafwyd ffair lwyddiannus iawn gydag elw o £1,078 – dim ond rhyw £30 yn llai na'r llynedd, er gwaethaf yr hinsawdd economaidd. Trodd nifer dda o'r trigolion allan i'n cefnogi unwaith yn rhagor, a braf oedd gweld pawb yn mwynhau cymdeithasu dros baned a chacen.

Rhaid diolch i fudiadau'r pentref ac i'r ysgol am eu cefnogaeth gyda'r stondinau amrywiol, ac i nifer o unigolion am y gwobrau raffl niferus ar bob stondin. Criw pwysig iawn arall yw'r rhai fu'n paratoi'r bwyd ac yn gweithio yn y gegin drwy'r pnawn, ac mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn iddynt.

Mae'r arian a godwyd yn galluogi'r pwyllgor rheoli i wneud gwelliannau i gynnal safon uchel y Neuadd. Fel y dywedodd y Cadeirydd yn ei annerchiad, mae arian sylweddol wedi'i wario eleni ar y darganfyddwyr mwg, llenni newydd i'r llwyfan a rhannu'r stafell snwcer yn ddwy. Derbyniwyd nawdd sylweddol o gwmni Amgen tuag at y darganfyddwyr mwg, ac mae'r pwyllgor yn gwerthfawrogi'r cymorth hwn yn fawr.


Ffair lwyddiannus eto eleni, felly, a llawer o ddiolch i bawb a'n cefnogodd.

Ieuan Morgan



Goleuo'r Goeden Nadolig

Cynhaliwyd seremoni goleuo'r goeden Nadolig o flaen Capel y Tabernacl a Neuadd Goffa Tal-y-bont bnawn Iau 4 Rhagfyr. Gwydion Jones, Gellimanwydd, gafodd y fraint eleni o droi'r switsh ymlaen. Yn anffodus, oherwydd y glaw bu'n rhaid cynnal gweddill y gweithgareddau dan do. Serch hynny, cafwyd eitemau cerddorol graenus gan ddisgyblion Ysgol Gymunedol Tal-y-bont dan ofal Falyri Jenkins, ac eitemau tymhorol hefyd gan Gwydion a grŵp pres ieuencid y pentref. Ymunodd y gynulleidfa i ganu dwy garol, gan greu naws briodol i ddechrau cyfnod yr Ŵyl. Llywiwyd y gweithgareddau gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn; diolchodd hi i bawb a gymerodd ran ac i Dilwyn Lewis am gyflwyno'r goeden i'r pentref unwaith yn rhagor. Cyn troi am adref, cafwyd pawb gyfle i fwynhau clonc, a diod dymhorol a mins peis, a baratowyd gan aelodau o Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr.



Newyddion da i Sam!

Mae enw Sam Ebenezer, 2 Maes-y-felin, Tal-y-bont, eisoes yn gyfarwydd iawn i ni yn yr ardal hon oherwydd y llwyddiant sydd wedi dod i ran y bachgen 13 oed ym myd canu a pherfformio, yn cynnwys nifer o rannau mewn sioeau yn Theatr y Werin, Aberystwyth. Ychydig ddyddiau'n ôl, clywodd Sam iddo fod yn llwyddiannus mewn clyweliad a gynhaliwyd yn ddiweddar, ac y mae bellach wedi'i dderbyn yn aelod o Gôr Hyfforddi Cenedlaethol Ieuencid Cymru. Llongyfarchiadau mawr i ti, Sam, ac edrychwn ymlaen at ddilyn dy llwyddiant yn y dyfodol.



Clwb Nos Wener

Mae Clwb Nos Wener yn freintiedig iawn yn safon y perfformwyr sy’n dod atom. Nos Wener 17 Tachwedd, cawson ni ein diddanu am ddwy awr gan Ian Wyn Rowlands – gitarydd a chanwr meistrolgar tu hwnt – a hynny am £5 yn unig! Bechod nad oedd rhagor o bobol yno i wrando arno.

Cyfareddol yw’r unig air i ddisgrifio’i berfformiad. Gan gyflwyno cymysgedd o’i ganeuon grymus ei hun a threfniannau hynod wreiddiol a chyffrous o ganeuon ac alawon traddodiadol Cymreig, bu’n swyno’r llond dwrn o ffyddloniaid a ddaeth ynghyd i’r Llew Du. Mae Lyn Ebenezer wedi cyfeirio at Ian fel ‘un o ddoniau mwyaf Cymru sydd heb ei lawn ddarganfod’ ac efallai mai da o beth yw hynny ar un wedd. Mae yna ryw ddiffuantrwydd a naturioldeb yn perthyn i’w arddull berfformio a’i gymeriad fel ei gilydd.

Mae Ian eisoes i’w glywed ar recordiau a ryddhawyd gan Tra Bo Dau, Abenaki a Thriban, ond ar hyn o bryd mae’n gweithio ar albwm ar ei liwt ei hun – un i’r casgliad yn bendant. Os cewch chi hanner cyfle i’w weld o yn rhywle, ewch amdani – chewch chi mo’ch siomi. Noddwyd y noson gan Gynllun Noson Allan Cyngor Celfyddydau Cymru.

Merched y Wawr, Tal-y-bont a’r Cylch

Ar nos Lun, 17 Tachwedd estynnwyd croeso i’r gangen i Gwyn Jenkins, Maesgwyn, awdur y gyfrol *Huw T. Edwards, Prif Weinidog Answyddogol Cymru* a gyhoeddwyd gan wasg Y Lolfa y llynedd. Cawsom weld sleidiau o nifer o luniau o’r gyfrol ac adroddwyd hanesion diddorol am fywyd a gwaith Huw T. Edwards. Talwyd y diolchiadau gan Enid Gruffudd. Tegwen Jones a Margaret Jones oedd yng ngofal y te.

Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Cawsom brynhawn diddorol iawn ar 11 Tachwedd yng nghwmni’r Parch Judith Morris. Sail ei sgwrs oedd pecyn o gardiau bach a ddaeth yr holl ffordd o Awstralia. Bu Susie Cox yn byw yn y Bermo ac yn arwain grwpiau Astudiaethau Beiblaidd. Aeth yn ôl i’w mamwlad yn 2004 gan ddychwelyd i Gymru ar wyliau yn ystod yr haf eleni, a daeth ag anrheg i bob grŵp, sef bocs o gardiau o’i chynllun ei hun. Ar bob cerdyn roedd llun gwrthrych, gair o anogaeth ac adnod. Cawsom amser difyr iawn wrth i Judith ddangos y cardiau ac ehangu dipyn ar eu hystyr a’u cefndir Beiblaidd. Diolch iddi am rannu ei gwybodaeth mewn ffordd mor gartrefol.

Sefydliad y Merched, Eglwysfach

Cafodd yr aelodau noson hynod ddiddorol a doniol yng nghwmni Jez Denks ar Ragfyr 1af. Fe ddaeth Jez ag arteffactau o’r amgueddfa i’w dangos, wedyn rhoddodd adloniant ar ei ffidil.

Actor Ifanc Lleol

Braf oedd clywed Ioan Gwyn, Maesgwyn, Tal-y-bont yn sgwrsio mor ddifyr ar raglen Geraint Lloyd yn ddiweddar am ei brofiad o fod ar daith gyda Chwmni Arad Goch yn ystod tymor yr hydref. Mewn cwta chwech wythnos perfformiwyd y ddrama 24 gwaith mewn ysgolion uwchradd yn siroedd Caerfyrddin, Penfro a Cheredigion. Mae’r ddrama ‘Yr Ystafell Aros’ gan Caryl Lewis wedi’i hanelu’n bennaf at bobl ifanc yn eu harddegau, a’i phrif thema yw cwestiynu’r syniad o ‘lwyddiant’. Cawsom ein cyflwyno gan Ioan i’r her ddwbl o fod yn un o ddim ond dau actor yn y cyflwyniad, gyda mwy na thraean o’r perfformiadau yn Saesneg a’r gweddill yn y Gymraeg. Tipyn o gamp, a dweud y lleiaf. Wedi derbyn croeso mor frwd mewn ysgolion roedd rhagor o deithio o flaen Ioan gan fod y ddrama hefyd i’w pherfformio i gynulleidfaoedd ehangach mewn mannau megis Aberystwyth, Merthyr Tudful, y Rhondda a Chaerdydd.



Pobl a Phethe

Llenor Dawnus

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Carys Mair Davies, wyres Mr D.W. Davies, gynt o’r Fferyllfa, Tal-y-bont, ar ennill Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Abergorlech, Sir Gaerfyrddin, ar 29 Tachwedd. Cyflwynwyd iddi dlws hardd â phatrwm Celtaidd arno. Carys hefyd a enillodd gadair eisteddfod Ysgol Penweddig eleni am yr eildro’n olynol, yn ogystal â nifer fawr o wobrau mewn eisteddfodau eraill. Mae’n amlwg bod dyfodol disglair iddi fel llenor!

Cydymdeimlad

Yn dawel yn y Cartref Nyrsio, Epping, Essex ar 8 Tachwedd bu farw Evelyn Jones, merch ifancaf y diweddar Willie ac Olwen Hughes, gynt o Stryd Birkenhead, Tal-y-bont. Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Harlow ar 21 Tachwedd a chleddir ei llwch ym medd y teulu ym mynwent Tal-y-bont yn y flwyddyn newydd. Roedd yn fam dyner i Andes ac yn fodryb i Dr Philip Manning, Canada, Phyllis Wells, Aberystwyth a Dorothy Williams, Bryngryffty Isaf, Tal-y-bont. Cydymdeimlwn â’r teulu i gyd yn eu colled.

Cynhyrchiad Ysgol Penglais o Oliver

Cymerodd amryw o ddisgyblion Penglais o Daliesin a’r cyffiniau ran yng nghynhyrchiad llwyddianus yr ysgol o *Oliver*. Cymerodd Ruth Taylor ran Nansi a gwerthwr mefus. Roedd Sally Horne a Tiffany Evans yn chwarae rhannau Mrs Bedwin a gwerthwr mefus (ar noson wahanol). Bryn Mortis Waite oedd Mr Brownlow, a chwaraewyd Sali ac un o gang Fagin gan Francesca Boorman. Roedd Alice Humphreys a Bridget Potter yn y corws, gyda Megan Icke (ffidil) Duncan Horne (gitâr bas) a Ruth Dingle (ffidil) yn y gerddorfa a Martin Nelves yn aelod o gôr y staff. Roedd Yasmin Eva, Stryd Pantycalch, Tal-y-bont, hefyd yn chwarae un o’r prif rannau.

Cafodd pawb noson ardderchog, beth bynnag eu hoedran; roedd yn gynhyrchiad cynhyrfus a doniol iawn mewn mannau a’r gerddoriaeth yn wych. Fel arfer, llwyddodd Jane Leggett (Pennaeth Cerddoriaeth ym Mhenglais) i gael y gorau mas o’r disgyblion a rhoi llawer o bleser i bawb.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Mali James, merch hynaf Harry a Medi, Llannerch, Tal-y-bont, ar gael ei phenodi’n Rheolwr Nawdd gydag Urdd Gobaith Cymru. Bydd yn parhau i fyw a gweithio yng Nghaerdydd, lle y bu ers deng mlynedd bellach – fel myfyrwraig i ddechrau, ac yna’n gweithio i S4C ac i elusen Ymchwil y Galon. Dymunwn bob hapusrwydd a llwyddiant i Mali yn ei swydd newydd.

Age Concern - Ceredigion

CLWB CINIO TAL-Y-BONT

YDYCH CHI’N MWYNHAU CYMDEITHASU,
Cael hwyl, cadw’n iach, mwynhau bwyd blasus?
YMUNWCH A NI - CLWB CINIO TAL-Y-BONT.
CWRDD UNWAITH Y MIS YN Y LLEW DU

Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch â Jane Raw-Rees, Swyddfa Aberystwyth, Cyngor Henoed Ceredigion, Yr Hen Ysgol Gymraeg, Ffordd Alexandra, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1LE.
Ffôn: (01970) 615151. E-bôst: jrr@ceredigionageconcern.fsnet.co.uk
Elusen Cofrestredig1042789

Evan Owen Jones, Berthlwyd

Yn dawel yn Ysbyty Bronglais ddydd Llun 3 Tachwedd, bu farw un o blant hynaf yr ardal hon, ar ôl cael oes hir o ieched da. Un o blant y filltir sgwâr oedd Evan Owen Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont. Fe'i magwyd yn Mwlchdyddwyallt, yr hynaf o ddau fab i'r diweddar Richard a Mary Elizabeth Jones. Cafodd ei addysg yn ysgol y pentref, ac am gyfnod yn Ysgol Ardwyn, cyn dod adref i weithio ar y fferm.

Yn ystod ei oes hir, gwelodd E O Jones newidiadau mawr iawn ym myd amaeth. Roedd yn gyfarwydd iawn â dilyn y ceffylau – yr unig bŵer ar y fferm yr adeg honno – ac yn gyfarwydd hefyd â defnyddio pladur, picwarch pedair pig, y fwyell a'r gwellau, ond pan ddaeth y newid mawr, ef oedd y cyntaf i newid. Ym Merthlwyd y gwelais i y peiriant cneifio trydan cyntaf ar y llawr cneifio, ynghanol y gwelleifiau, pan oedd pawb arall yn gwrthod eu derbyn.

Bu'n adroddwr o fri pan oedd yn ifanc, yn y cyfnod pan gynhelid eisteddfodau yn Seion, Ceulan a Bethesda, Tynant. Bu'n actio mewn dramâu yn y capel hefyd, pan oedd y Parch. Fred Jones yn cynhyrchu. Roedd ei fagwraeth Gristnogol yn bwysig iawn iddo, a daliodd i fynychu'r capel yn gyson ar hyd ei oes tra medrai. Cafodd ei ddewis yn ddiagon yng Nghapel Bethel yn 1951, a bu'n gyhoeddwr am gyfnod.

Priododd E O Jones yn 1945 â Bertha Owen, merch Berthlwyd, a ganwyd iddynt un mab, David. Cafodd ergyd drom pan gollodd ei annwyl wraig bum mlynedd ar hugain yn ôl. Cafodd y pleser o aros ar yr aelwyd ym Merthlwyd bron hyd y diwedd. Gadawodd y fuchedd hon yn enaid bodlon iawn, greda i, wedi ymdrechu ymdrech deg i wasanaethu ei deulu, ei gapel a'i gymuned hyd eithaf ei allu, a hynny mewn modd tawel, gonest a chymdogol.

Bu David ac Elspeth, ei briod, a'r plant Elfed a Ffion, yn ofalus iawn ohono hyd y diwedd, ac rwy'n sicr bod yr wyrion wedi elwa'n fawr o fod yn ei gwmni. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Gwilym Jenkins



Mary Elizabeth Ellis, Lerry View

Ar 28 Tachwedd 2008, yn Ysbyty Bronglais, fu farw Mary Elizabeth Ellis, Lerry View, Tal-y-bont. Fe'i ganwyd yn Nant-y-nod, yn un o chwech o blant y diweddar Francis a Kate Williams, cyn symud yn ifanc iawn i lawr i Gwmslaid. Mynychodd Ysgol Gynradd Tal-y-bont, gan aros yno nes ei bod yn 14 oed pan aeth i weithio gyda 'Parry'r Fets' yn Aberystwyth yn gofalu am y teulu.

Pan dorrodd y rhyfel allan yn 1939 bu raid iddi fynd i Gasnewydd i weithio yn y ffatri 'munitions' yno. Dychwelodd adref a chyfarfod â Herbert Wynne Ellis o Benrhyn-coch, a phriodwyd y ddau yng Nghapel Bethel yn 1945. Eu cartref cyntaf oedd Bridgend – sef Trewern erbyn hyn – a phrynwyd Lerry View yn 1960. Yr ardd oedd prif ddiddordeb y ddau – llysiau a blodau fel ei gilydd – a llwyddent i dyfu pob math o flodau i'w gosod yn y trefniannau blodau yr oedd hi mor hoff ohonynt. Cafwyd hwyl hefyd ar dyfu grawnwin ac eirin gwlanog, ynghyd â rhosod a llwyni blodau o bob math.

Bu'n mynychu sawl sioe leol dros y blynyddoedd, ond Tal-y-bont a Llanwelwedd oedd y rhai pwysicaf yn ei golwg. Bu'n aelod ffyddlon o Glwb Blodau Aberystwyth ac o Sefydliad y Merched a Merched y Wawr, Tal-y-bont. Roedd hi hefyd yn hoff iawn o groesbwytho a gwnïo.

Aeth y blynyddoedd heibio a'r corff, yn anffodus, yn methu. Treuliodd y chwe blynedd ddiwethaf yng nghartrefi Cysgod y Coed ac Abermâd, Llanilar, lle bu pawb yn hynod garedig wrthi.

Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys Dewi Sant, Tal-y-bont, ar 28 Tachwedd. Gedy un chwaer ar ei hól, sef Mrs Eunice Phillips, Aberystwyth.

Aeron ac Aileen Williams

Elizabeth Ann Steele-Jenkins, Llundain

Ar 2 Tachwedd, yn 84 oed, bu farw Elizabeth Steele-Jenkins, 53 Penn Road, Llundain N7. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Eglwys St. Pedr, Elerch ar 14 Tachwedd yn dilyn gwasanaeth cyhoeddus o dan ofal y Parchg John Livingstone gyda Mrs Elisabeth James wrth yr organ. Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn â'r teulu, yn arbennig y meibion James a Russell, a'u gwagedd Maria a Margaret, a'r llysfab Edward a'i briod Melanie. Roedd y trefniadau yng ngofal Mr Selwyn Evans, Penrhyn-coch.

Roedd Betty, fel y'i hadwaenid gan y teulu, yn perthyn i un o hen deuluoedd yr ardal. Roedd ei mam, Maglona Jenkins, priod Evan Thomas Rowlands, yn ferch i John ac Ann Jenkins, Bwlchrosser. Cyn ymsefydlu ym Mwlchcrosser bu'r teulu'n ffermio Cefngwyn a Chwmere. Symudodd y teulu i Lundain yn fuan iawn ar ôl y Rhyfel Mawr lle buont yn gysylltiedig â Chwmni London Wholesale Dairies, Ltd.

Diolchir yn gynnes iawn i'r teulu am gyflwyno rhodd hynod o hael tuag at Eglwys Elerch er cof am yr ymadawedig.

Richard Huws

Cymdeithas Gorawl Aberystwyth

Nos Sadwrn, 13 Rhagfyr
am 8 o'r gloch
Canolfan y Celfyddydau
Requiem, Brahms fydd y
prif ddarn, gyda Dr David
Russell Hulme yn arwain
y côr a'r gerddorfa. Y
ddau unawdydd fydd
Katherine Fuge (soprano)
a Paul Carey Jones
(bariton). Prynwch eich
tocynnau gan aelodau'r
côr os yn bosibl, neu o'r

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

Us am ddiwedd hysbennu
**CAMBRIAN
CABS**

Welshian Bell ac Agos
01970 626292

CEFNOGWCH GYMRO LLEOL

H. LLOYD WILLIAMS
CYNNAL A CHADW GERDDI
TORRI PORFA A SIETYN,
GOSOD DECKING A SLABIAU

DOES DIM YN ORMOD O WAITH!

32 Bryncastell Ffôn: 01970 820699
Bow Street Symudol: 07966 105519

Ysgol Gymunedol Tal-y-bont

Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gystadlu yn y Gala Nofio yn ystod mis Tachwedd. Roedd hi'n bleser gweld eich ymroddiad a'r gefnogaeth i bob un arall oedd yn cystadlu hefyd.

Dymuna holl staff a disgyblion yr ysgol y gorau i Margaret Griffiths a gwellhad buan iawn iddi.



Diwrnod Ffrengig a Phlant Mewn Angen

Ar 15 Tachwedd, cafwyd diwrnod arbennig iawn yn yr ysgol. Penderfynwyd anghofio am y Cwricwlwm Cenedlaethol a neilltuo diwrnod i ddysgu mwy am Ffrainc. Cafwyd cwmni gwestai arbennig, ac fe wnaeth Mme Bizart ei gorau i ddysgu geiriau, ymadroddion ac ambell gân i ni. *Merci beaucoup, Anne-Marie!* Fe wnaeth Mrs Jones a Mrs Bent goginio bwyd Ffrengig ac fe gafodd pawb y cyfle i flasau danteithion y wlad, o gaws i groissants! Ar yr un diwrnod, buom yn codi arian i Blant Mewn Angen wrth brynu cacennau a diod. Diolch yn fawr iawn i'r Clwb ar ôl Ysgol am eu cymorth gyda'r paratoi.

Mwynhau sioe

Aeth Blwyddyn 5 a 6 i weld y sioe 'Agi Agi Agi' yn Ysgol Penweddig ddydd Iau, Tachwedd 27. Rydym yn meddwl fod pawb wedi mwynhau. Ein cymeriadau gorau ni oedd y plismon a mam Gwenno. Roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o gyn-ddisgyblion Tal-y-bont yn pefformio yn y sioe – ar y llwyfan ac yn y gerddorfa. Y pethau mwyaf dysgom ni oedd meddwl cyn gwneud a dweud pethau. Tybed a allwch chi wneud sioe mor wych rywbryd eto? Hoffen ni ddweud diolch wrth yr actorion, a'r athrawon ac i Mr George am wneud sioe mor wych.

Zoë Forster Brown a Niamh O'Donnell

Ymweliad gan Gill a Shân

Yn ddiweddar fe wnaeth yr ysgol wahodd rhai pobl i ddod i siarad am y gwahanol swyddi sydd ar gael o fewn y diwydiant bwyd yn lleol. Daeth Gill o Gyngor Sir Ceredigion a Shân o Fwydydd Castell Howell i siarad â ni. Roeddem ni wedi cael cyfle i holi llawer iawn o gwestiynau am fwydydd ac am Gastell Howell. Rydym ni wedi dysgu am lawer o wahanol fwydydd a pha fath o waith sydd i'w gael, fel swyddi mewn swyddfa, gyrru lorrï, cyfrifydd a gweithio yn y ffatrioedd. Dysgom ni lawer ac rydym yn siŵr fod pawb arall wedi hefyd.

Ffion a Geraint

Planetariwm

Yn ddiweddar, daeth Andrew a Richard o Brifysgol Aberystwyth i'r ysgol gyda Planetariwm arbennig. Dysgom ni bod Mawrth, Mercher, Gwener, Iau a Sadwrn wedi cael eu henwi ar ôl Duwiau. Hoffom ni weld sut oedd y sêr yn symud o amgylch yr awyr. Dysgom bod rhai planedau'n troi mewn cylchoedd bach a mawr a bod rhai'n troi mewn cylchoedd mawr yn unig. Pan ddaethom ni mas o'r planetariwm

roeddem ni'n teimlo fel ein bod ni wedi bod yn y gofod! Fe wnaethom ni fwynhau gofyn yr holl gwestiynau yn fawr iawn! Diolch am ddod i'r ysgol i ddangos y lluniau o'r Planedau. Fe wnaethom ni fwynhau yn fawr iawn.

Bethan a Siwan

Annwyl Mr a Mrs Evans a'r teulu

Diolch am adael i ni ddod i'r fferm a rhoi croeso cynnes i ni. Mwynheuais i yn fawr iawn. Diolch yn fawr am ddangos ni rownd eich fferm ac am helpu ni i gasglu gwybodaeth. Hoffais weld y gwartheg i gyd – y tarw, y lloï, y defaid, yr ŵyn, y ci defaid a'r anifeiliaid eraill i gyd. Hefyd hoffais weld y peiriannau fel y tractorau a'r aradr. Dysgais lawer am hanes y fferm a bod gennych chi 1,800 o ddefaid. Dysgais bod y defaid yn mynd i'r Eidal i gael eu coginio ar farbeciw mawr iawn achos bod y teulu i gyd yn bwyta gyda'i gilydd. Diolch am y diod a'r gacen, roedd e'n flasus iawn. Diolch o galon am roi eich amser i ni.

Yn gywir, Tara

Annwyl Mr a Mrs Jenkins a'r teulu

Dwi eisiau diolch i chi am adael i ni ddod i eich fferm chi a chymryd eich amser. Diolch am eich croeso cynnes. Dysgais lawer am eich fferm chi. Dysgais sut i odro buwch a bod angen bod yn dawel pan ydych chi'n godro. Dyma'r tro cyntaf i fi weld gwartheg yn cael eu godro, diolch am hynny. Dysgais hefyd beth oeddech chi'n cynhyrchu ar eich fferm chi, pa offer chi'n defnyddio a dysgais bod chi'n fferm organic. Diolch hefyd am ddangos ni o gwmpas y fferm. Mwynheais yn fawr iawn.

Diolch am gael diod. Roeddwn i angen diod ar ôl bod ar y beics! Roedd y llaeth yn flasus iawn – iymm! Diolch eto yn fawr iawn ac rwy'n siŵr fod y dosbarth wedi casglu llawer o wybodaeth am y fferm.

Yn gywir, Niamh O'Brien

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd Nest Jenkins, cadeiriwyd y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Megan Mai, a estynnodd groeso cynnes i'w chyd-aelodau. Yn dilyn y cyfarfod diwethaf derbyniodd y Cyngor ohebiaeth bellach yn cyflwyno rhagor o fanylion am gyfansoddiad, amcanion a rhaglen weithredu Grŵp Cysylltu Cymuned Airtricity. Pasiwyd i gynghori cynrychiolydd y Cyngor ar y Grŵp Cysylltu i beidio ag arwyddo unrhyw gytundeb ffurfiol hyd nes bo'r Cyngor yn fodlon nad yw arwyddo'r ddogfen yn ymrwymo'r Cyngor mewn unrhyw ddull a modd i'r datblygiad arfaethedig. Adroddodd y Cynghorydd Gerwyn Jones iddo gysylltu gyda'r Cyngor Sir yn dilyn y cyfarfod diwethaf, ar fater ailgylchu. Cafodd wybod bod hawl gan unrhyw un o'r trigolion i gysylltu gyda'r Cyngor Sir pan oedd angen gwagio'r biniau, dim ond iddynt ffonio 01970 633010. Cytunwyd y dylid gofyn i Adran Priffyrdd, Eiddo a Gwaith y Cyngor Sir i lanhau llwybrau'r Cae Bach fel mater o frys a hefyd dylid gwahodd amcangyfrifon gan gwmnïau lleol i ail-dario'r llwybrau hyn yn y gwanwyn os bydd cyllid yn caniatáu.

Darllenwyd llythyr a dderbyniwyd gan Glerc Llywodraethwyr Ysgol Parmiter yn pwyso ar y Cyngor i dynnu'n ôl y sylwadau a wnaed ganddo yng nghyfarfod mis Tachwedd 2007 ar y cais cynllunio i newid defnydd Hen Ysgol Tal-y-bont. Mater i'w benderfynu gan yr Awdurdod Cynllunio yw cais i newid defnydd adeilad a deillir fod hwn yn un o nifer o geisiadau a ddirprwyd gan y Cyngor Sir i Ymgynghorwyr Allanol. Pasiwyd i anfon llythyr at Ysgol Parmiter yn gofyn iddynt gysylltu â'r Awdurdod Cynllunio ar y pwnc dan sylw. Derbyniwyd gwahoddiad oddi wrth y Cyngor Sir i anfon dau gynrychiolydd i Gyfarfod Ymgynghorol yn Siambr y Cyngor Sir yn Aberaeron Nos Fawrth 2 Ragfyr i drafod mesurau posib i leihau'r gost o oleuo strydoedd. Amlinellodd y Cynghorydd

Ellen ap Gwynn y dewisiadau a drafodwyd ac argymhelliad y Pwyllgor Craffu i Gabinet y Cyngor Sir. Eglurodd hefyd nad oedd y cynnig i ddiffodd goleuadau stryd am ran o'r nos yn cynnwys goleuadau'r briffordd drwy Dal-y-bont. Trafodwyd y dadleuon o blaid ac yn erbyn diffodd goleuadau am ran o'r nos a phasiwyd y dylai'r Cyngor Sir chwilio am ddulliau amgen i ddatrys y broblem. Derbyniwyd gwahoddiad i'r Cyngor ymuno mewn cynllun peilot newydd rhwng Cyngorau Cymuned ac Adain Arfordir a Chefn Gwlad y Cyngor Sir i glustnodi rhwydwaith o deithiau cerdded a marchogaeth y mae angen eu gwella. Pasiwyd i anfon at y Swyddog Mynediad a Hawliau Tramwy yn nodi bod y Cyngor yn awyddus i fod yn rhan o'r cynllun peilot.

Darllenwyd llythyr gan Rachel Mills, Cydlynnydd Balchder Bro Sir Ceredigion, yn gwahodd awgrymiadau ar ddulliau o wella ansawdd y gynefin leol. Mae grant o £104,000 y flwyddyn wedi ei neilltuo i Geredigion am gyfnod o dair blynedd. Bydd unrhyw gymorth yn dod ar ffurf deunyddiau a phrynu gwasanaethau yn hytrach na grantiau ariannol. Pasiwyd i anfon yr awgrymiadau canlynol ymlaen: (a) Tacuso a phlannu planhigion wrth dalcen ac o flaen y cyfleusterau cyhoeddus ar bwys y Patshyn Glas; (b) Gosod mainc ar bwys y bont gerllaw Ffald Penpompren. Cyflwynodd y Clerc Gyllideb ddrafft i'r aelodau fwrw golwg drosti cyn trafod y Gyllideb Derfynol yng nghyfarfod mis Ionawr. Nid oedd unrhyw sylw gan y Cyngor i'r newidiadau yng nghais cynllunio Yr Hen Orsaf Heddlu (Y Lolfa) i godi storfa bapur. Ymatebodd y Cyngor yn gadarnhaol i brif argymhellion y papur ymgynghorol ar yr opsiynau i ddyfodol ysgolion cynradd Ceredigion ac yn benodol yr hyn roedd y papur yn ei argymhell ar gyfer Ysgol Gymunedol Tal-y-bont.

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@ylolfa.com



ylolfa
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
ylolfa@ylolfa.com
www.ylolfa.com



M & D PLUMBERS
Plumbing & Heating

Prisiau Cynharol;
Gostyngiad i Bersiynwyr;
Yswiriant llawr;

iphe
Cysylltwch â Ni yn gyntaf ar
01974 282824 / 07773978352

S. F. BYRNE
Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309
Gwneir pob math o waith



Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwailt gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llan-Gwener
(01970) 832 674

**Dofednod
Cwmtynant**



Dofednod ffres o fferm leol.
Archebwch wydd, twrci, hwyaden
neu gwy i'w erbyn y Nadolig
Cysylltwch â Dilwyn, Marion,
Rhydian neu Elgan
Tynant, Tal-y-bont 01970 832 257

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu
gwasanaeth fframio dychmygus
o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o
siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar
gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth,
Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

K Hughes

Plymio a Gwresogi
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Ysgol Gynradd Llangynfelyn

Ysbryd y Mwynwyr

Fe ddaeth y Cynghorydd Ellen ap Gwynn i'r ysgol yn ddiweddar i gyflwyno poster i am yr ardal i Gyfnod Allweddol 2. Trafodwyd hanes yr ardal a sut mae'r ardal wedi datblygu. Fe fydd y poster yn fuddiol iawn wrth i ni ddysgu am hanes ein hardal leol.

Baner Masnach Deg

Gan fod yr ysgol yn Ysgol Fasnach Deg cafwyd y fraint o gael y faner am ddiwrnod yn yr ysgol. Mae hyn i gydnabod mai Cymru yw'r wlad gyntaf i fod yn wlad Masnach Deg.

Planetariwm

Fe aeth y plant i Ysgol Talybont yn ddiweddar i ddysgu am y planedau trwy fynd i mewn i'r planetariwm sydd ar daith o Brifysgol Aberystwyth. Cafodd blynyddoedd 5 a 6 brynhawn hyfryd wrth i gwmni Castell Howell ddod i drafod byd busnes a byd gwaith.

Agi! Agi! Agi!

Aeth blynyddoedd 5 a 6 i weld sioe Nadolig Ysgol Penweddig. Cafwyd amser hyfryd yn gwyllo'r bobl ifanc yn perfformio. Llongyfarchiadau i Benweddig ar eu llwyddiant.

Clwb Brecwast

Mae clwb brecwast llwyddiannus wedi dechrau yn yr ysgol. Mae plant yn medru dod i'r ysgol am 8:15 y bore er mwyn cael brecwast ac mae rhieni'n medru mynd i'r gwaith. Gobeithiwn y bydd y clwb yn cael ei gefnogi am amser hir.

Croesawu Myfyriwr

Croesawn Mr Carver i'r ysgol fel myfyriwr sydd ar ei flwyddyn ymarfer dysgu. Mae efo ni am bythefnos nawr ac wedyn am 5 wythnos ar ddechrau'r flwyddyn newydd. Dymunwn bob llwyddiant iddo.

Cyngerdd Nadolig

Cafwyd dau gyngerdd Nadolig llwyddiannus iawn yn Llanfach yn ddiweddar. Cyflwynodd CA1 Sioe Santa tra cyflwynodd CA2 Eira Wen. Cafwyd eitemau hefyd gan y gerddorfa, y band pres a'r grŵp recorders. Cafodd pawb y cyfle i weld talentau'r ysgol. Ymunodd yr henoed â ni yn yr ysgol yn dilyn y cyngerdd i gael paned a sgwrs.



Blwyddyn 3 a 4 Baner Masnach Deg



Sioe Santa (CA1)



Y Corachod (CA2)



Simon Lloyd-Williams yn cyflwyno Tarian Rhosgoch i Dafydd Jenkins (llun: Ann Jenkins)

Cymdeithas Defaid Mynydd

Dydd Iau 13 Tachwedd oedd dyddiad cychwyn arbrawf ŵyn hyrddod y Gymdeithas. Daeth 14 o aelodau â 30 o ŵyn hyrddod i'r Prawf, a bydd y rhain yn cyd-bori ar borfa'n unig ar fferm ger Wrecsam tan ddechrau mis Mai. Cyflwynir Tarian Rhosgoch i'r oen hwrdd mwyaf addawol, gyda'r aelodau sy'n cymryd rhan yn dyfarnu 3 phwynt i'r gorau, 2 bwynt i'r ail ac 1 pwynt i'r trydydd. Y canlyniad oedd i hwrdd Dafydd Jenkins, Tanyrallt, ennill y darian.

Bydd yr ŵyn yn cael eu pwyso ar ôl setlo i lawr, a hefyd ar ddiwedd y prawf, gan Lisa Evans, Hybu Cig Cymru, a dau neu dri o'r perchnogion. Bryd hynny, cewch ddarllen yr hanes yn llawn yn *Papur Pawb*!

Gareth Evans

Efeilliaid!

Fel roedd *Papur Pawb* ar fin mynd i'r wasg daeth y newyddion fod tair set o efeilliaid wedi cyrraedd Llwynglas! Llongyfarchiadau i Janet ac Alun ar enedigaeth y newydd-ddyfodiaid!

Nabod

Sut fydddech chi'n diffinio person creadigol? Wel, mae'r un y down i'w hadnabod y tro hyn yn sicr yn greadigol, ac yn brawf o hynny mae'n un o sylfaenwyr cwmni o'r enw Creu-ad, sy'n arbenigo mewn dehongli treftadaeth drwy weithiau celf. Ei henw yw Shelagh Hourahane ac mae'n byw yn Gwêl-y-Garn uwchben pentref Tre'r-ddôl.

Mae Shelagh yn hanu o Gaerdydd ac fe ddaeth i ddarlithio yn Adran Gelf y Brifysgol yn Aberystwyth ar ddiwedd y chwedegau. Bu'n byw yn y dre am 30 mlynedd cyn symud i Lanfachreth ger Dolgellau yn y 1990au. Symudodd i Gwêl-y-Garn yn 2005 gan drawsnewid adeilad a oedd gynt yn sgubor a thai allan yn dŷ byw.

Mae stori Creu-ad yn cychwyn bedair blynedd cyn hynny, yn 2001. Gyda chyfeilles iddi, Lynne Denman, sefydlodd Shelagh Creu-ad fel yr unig gwmni yng Nghymru i gynnig cyngor ar ddefnyddio celf i ddehongli ein treftadaeth a'n hamgylchedd. Cychwynnodd y cyfan gyda'r cwmni yn tendro am waith gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru i baratoi cynlluniau dehongli i'r bum Warchodfa Natur Genedlaethol. Y thema oedd 'Ymdeimlad o Gyrraedd' a'r nod oedd gweithio gyda'r gymuned leol i gyfleu darlun newydd o'r gwarchodfeydd i greu ymwybyddiaeth ymhlith yr ymwelwyr o bwysigrwydd y safleoedd. Roedd un o'r cynlluniau cyntaf yn Warchodfa Natur Ynyslas, ac yno y sefydlwyd y patrwm a ddilynwyd gyda'r lleill – siarad a sgwrsio gyda gweithwyr y Warchodfa, mynd allan i gwrdd â chymdeithasau lleol ac ymweld â'r Ysgol Gynradd yn Borth i gael syniadau gan y plant.

Y cam nesa oedd gwahodd arbenigwyr i droi ffrwyth yr holl drafodaethau yn wrthrychau cig a gwaed – a dyma ddod at nodwedd allweddol yng ngwaith Creu-ad. Er bod Shelagh a Lynne yn arlunwyr maent yn gweld eu hunain yn fwy fel hyrwyddwyr yn cydweithio gyda dros 35 o arlunwyr ac artistiaid eraill i droi syniadau'n realiti a rhoi'r cynlluniau ar ben y ffordd. Yn Ynyslas, er enghraifft, ymwelodd y bardd Menna Elfyn â'r ysgol gynradd i weithio gyda'r disgyblion i greu cerddi a ddefnyddiwyd yn y gwaith celf. Ffynhonnell arall oedd straeon a hanesion am Ynyslas a'r twyni tywod gan rai o drigolion hŷn yr ardal. Canlyniad y cyfan oedd paneli gwybodaeth a dehongliad ar furiau'r Ganolfan Ymwelwyr a gweithiau celf, gan gynnwys cerflun enfawr mewn derw o falwen fôr. Mae modd dringo ar hyd 'gefn' y falwen i gael golygfa ardderchog o aber yr afon Dyfi a'r twyni tywod.

Ynyslas oedd cynllun cyntaf Creu-ad, ac ers hynny mae'r cwmni wedi gweithio ar gynlluniau tebyg yn y bedair gwarchodfa natur arall yng Nghymru ac mewn bron i ugain safle arall. Nid nepell o ardal *Papur Pawb* cynlluniwyd paneli dehongli yng Nghanolfan Bwlch Nant yr Arian, cynllun treftadaeth yn Llandre, a gwaith celf gerllaw traeth Tanybwllch a bryncyn Pen Dinas, Aberystwyth. Er bod y rhan fwyaf o waith y cwmni yn troi o gwmpas lleoliadau cefn gwlad, mae Creu-ad hefyd wedi paratoi cynllun marchnata a dehongli i dre Caernarfon a chynllun treftadaeth i bentref Cwm Carn ger Casnewydd. Maent hefyd wedi gweithio tu hwnt i Glawdd Offa yn Hatfield, Swydd Hartford, ar safle a oedd cynt yn faes awyr a ffatri ac ar gynllun yng nghoedwigoedd yr Alban. Ystod eang o safleoedd, felly, a hynny'n gofyn am gydweithio gyda chleientiau gwahanol gan gynnwys y Comisiwn Coedwigaeth, Bwrdd Camlesi Prydain, awdurdodau lleol a grwpiau gwirfoddol.

Pan ofynnais i Shelagh beth oedd y prif broblemau wrth weithio ar y cynlluniau fe ddaeth yr ateb yn syth – arian! Yn aml nid oes digon o arian i wireddu'r cynllun yn union fel y byddai hi a'i chyd-artistiaid yn ei ddymuno – wedyn, wrth gwrs, rhaid ailystyried. Problem arall yw bod 'na rai ymhob safle sy'n wrthwynebus, yn pwysleisio'r harddwch naturiol ac am gadw'r safleoedd yn union fel ag y maent heb newid dim. Anhawster sy'n codi bron ymhob achos yw bod yn rhaid i'r gwaith celf fod allan yn yr awyr agored. Mae hyn yn amlwg yn cyfyngu ar y defnyddiau posib gan ganolbwyntio ar gerflunwaith mewn coed a phanelau patrymog mewn mosaic. Weithiau mae problem yn codi gyda'r angen i gael arwyddion a phanelau'n ddwyieithog. Mae'r egwyddor yn sylfaenol i waith y cwmni, ond gall arwain at arwyddion mwy o faint gyda'r cleient, efallai, yn gweld yr arwydd yn rhy fawr ac yn amharu ar yr olygfa. Mwy o gynllunio ac ailfeddwl!



Mae Creu-ad yn gwmni unigryw yng Nghymru, yn gweithio mewn maes sy'n gymharol newydd, sef Dehongli Treftadaeth. Mae'r maes yn datblygu'n gyflym ac mae Shelagh a'i chydweithwraig yn edrych ar y posibiladau o ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf, fel systemau 'satnav', yn y dasg o ddehongli a chynorthwyo ymwelwyr. Mae'r cyfleoedd yn sylweddol – ymwelydd yn dod i'r atyniad, cael peiriant bychan fel rhan o'r tâl mynediad a hwnnw wedyn yn ei arwain ac yn egluro agweddau'r atyniad.

Pan awn ni – chi a finne – i ymweld ag atyniadau ein prif nod, debyg iawn, yw gweld y lle, boed yn amgueddfa neu oriel neu lecyn yn yr awyr agored. Ond mae'n siŵr eich bod chi fel finne am ddysgu a deall, a dyna pryd y byddwn yn dibynnu ar y math o wybodaeth a bartoir gan gwmni Creu-ad. Pan fo'r dulliau o gyflwyno'r wybodaeth yn ymdoddi i'r amgylchedd, yn wir yn dod yn rhan naturiol o'r olygfa yna fe geir, mae'n siŵr, uniad perffaith. Neu, o'i roi e mewn ffordd arall – uniad Creu-adigol.

GIE



**Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**CODI Tŷ NEU
ESTYNIAD?**



Iwan Jones, Technegydd Pensaernïol
Gellimenwydd, Telybont, Ceredigion SY24 5HJ
01970 832760

Trydan y Doctor

Gan fod trigain mlynedd ers marw Dr David Owen Williams, M.B., CH.B., Cletwr Hall, Tre'r-ddôl, mae'n dda dwyn i gof ei gymwynasau fel meddyg nodedig i drigolion plwyf Llangynfelyn ac fel yr un a ddaeth â golau trydan i'w ardal ymhell cyn bod sôn am Manweb.

Roedd gwreiddiau'r meddyg yn ddwfn yn y fro o ochr ei fam a'i dad; ei dad-cu, Lewis Thomas, oedd melinydd Tre'r-ddôl am gyfnod maith, a'i dad yntau William yn of. Disgrifir David y tad fel Capten gweithiau mwyn plwm, a'r un teitl oedd gan Charles y tad-cu. Gyda chefnidir o'r fath nid yw'n syndod fod y Doctor wedi mynd ati i sefydlu'r trydan tua 1926 pan ofynnodd i'r arloeswr Richard Edwards, Glynllifon, Llanuwchllyn a oleuodd ei fro mor bell yn ôl â 1910 (o flaen unrhyw dref yng ngogledd Cymru), osod tyrbein yn Nhre'r-ddôl a fyddai'n cael ei weithio gan afon Cletwr. Pan euthum yn weinidog i Lanuwchllyn ym 1967 dywedodd Antur, mab Richard Edwards, wrthyf ei fod yn cofio dod gyda'i dad i osod y tyrbein nid nepell o gartre'r meddyg.

Roedd hynny'n agos at y llecyn lle cododd fy nghyfaill Henry Davies ei gartref, Hedd y Mynydd, ac ar ôl trafod gwaith y Doctor gydag ef yn ddiweddar cerddais i fyny gyda'r ffos yn ymyl yr afon nes dod at y fan lle'r oedd yr argae gynt. Y gŵr fu'n gofalu am y gwaith trydan am flynyddoedd oedd Tom Williams, Llwyncelyn, Ty'n-wern – un o'r tai y tu draw i Hen Gapel Tre'r-ddôl – ac ar ôl iddo farw yn ddim ond 54 oed ym 1947, fe'i olynwyd gan John Morgan Davies a faged yn Stryd y Felin gan Marged Gilbert. Roedd yna dipyn o waith cynnal a chadw er mwyn goleuo a chynhesu'r ardalwyr, ac yn yr Hydref roedd yn rhaid mynd ati ddwywaith y dydd i glirio'r dail oedd wedi cwmpo, rhag tagu'r peiriannau. Mae Kathleen Richards, Tal-y-bont (roedd ei thad-cu, Lewis Oliver, bwtsiwr Tre'r-ddôl, yn frawd i'r Doctor) yn cofio ymweld â Cletwr Hall droeon a mynd gyda Mari'r forwyn (ei mam yn fferm Aberleri, Ynys-las, yn chwaer i'r Doctor) i glirio'r dail.

Gan fod y trydan yn dibynnu ar lif y Cletwr, byddai'r golau'n wan iawn ar adegau ac at hynny byddai rhai bechgyn – drwy ysgwyd ambell bolyn yn Nhre'r-ddôl a Thaliesin – yn llwyddo i ddiffodd y cyfan, er mawr ofid i bawb. Cofiaf hefyd am fechgyn hynaf Ysgol Llangynfelyn yn llwyddo i glymu weiren o bolyn ar ffens ger yr ysgol a pherswadio'r merched i fynd drosti er mwyn eu gweld yn neidio'n uwch na chystadleuwyr y chwaraeon olymпадаid! Mae'n siŵr mai honno oedd ffens drydan gyntaf yr ardal. Byddwn yn falch o gael atgofion fy nghyfoedion a'r to hynaf am y trydan. Bydd yn rhaid parhau gyda stori Dr Williams a'i deulu dawnus rhywbryd eto.

Clwb Ffermwyr Ifanc

Daeth Mererid Wyn Jones o Glwb Ffermwyr Ifanc Felinfach atom ar 11 Tachwedd i siarad am ei thaith tramor i'r Ffindir fel rhan o Raglen Ryngwladol CFFI Cymru. Roedd yn werth gweld y cacennau traddodiadol a goginiwyd inni hefyd ganddi, a phawb yn difaru cael swper cyn dod!

Ar y 18fed, cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Hywel Evans a fu'n ein dysgu ni sut oedd mynd ati i wneud ffyn. Dwi'n siŵr na ddatgelwyd y 'trics of ddy trêd' i gyd, felly bydd rhaid mynd ati i groesholi eto!

Llwyddodd Elen Thomas i ddod â chlod i Glwb Talybont a Cheredigion drwy ennill yr Unawd 16 oed neu iau, a chael 3ydd yn yr Unawd Sioe Gerdd yn Eisteddfod CFFI Cymru. Dim syndod wedyn i Geredigion gael eu dyfarnu'n fuddugol ar ddiwedd y dydd ar ôl help Elen, gan ennill Tarian Elonwy Phillips i'r Ffederasiwn buddugol yn y Cystadlaethau Llwyfan a Tharian Mansel Charles i'r Ffederasiwn buddugol yn holl cystadlaethau'r Eisteddfod!

Yng nghanol yr oerfel ar 25 Tachwedd, torf fechan ddewr aeth i lawr i Glwb Golff Penrhos, Llanrhystud. Tro nesa, dwi'n credu bydd rhaid mynd yn nhymor yr haf!

Prin i ni gael cyfle i gynhesu'r ymennydd cyn ei bod yn bryd cael cwis y Sir ar y nos Iau! Diolch yn fawr i Eiry a Catrin o Glwb Trisant am ddod fel goruchwylwyr trylwyr. Does dim clem 'da fi pa mor lwyddiannus y buom – cawn wybod ym mhwyllgorau'r Sir y mis yma!

Yn ôl yr arfer, cynhaliwyd stondin Tombola yn Ffair Nadolig y Neuadd Goffa ar y 29ain. Llwyddwyd i godi £98.61 tuag at y gronfa.

Ar ddechrau mis Rhagfyr oer, bu cystadlu brwd yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd a daeth Dewi Tyngraig i'r brig ar farnu carcass. Os oes angen arallgyfeirio, mae gyrfa fel cigydd yn galw ar Dewi!

A dyna'n harwain ni at dymor y Dolig. Yn ôl yr arfer mi fyddwn yn mynd ar hyd y lle yn canu carolau i godi arian tuag at achosion da. Cofiwch wrando'n astud ar yr 16eg os na fyddwn wedi bod heibio chi eisoes! Ac os oes gennych lais peraid, pâr o fenig a choesau chwim, yna mae croeso mawr i chi ymuno â ni!

O.N. Ymddiheuriadau, ond ni fu'n bosib cynnal Goreuon y Steddfod ar y 25ain fel yr hysbysebwyd yn rhifyn diwetha *Papur Pawb*.

Eleri James

Canlyniad BLE YN Y BYD mis Hydref

Paul Watkin, Heulfor, Staylittle – tocyn llyfrau £10.00 iddo ef.

Ateb Hydref: Murlun yr Emporiwm, Tal-y-bont.

Ble yn y byd?

Sut i chwarae

Ble yn nalgylch Papur Pawb mae'r llun yma wedi cael ei dynnu?

Ateb

Enw

Cyfeiriad

Côd Post

Rhif Ffôn

Atebion: i Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont erbyn 7 Tachwedd.

Gwobr: Tocyn Llyfr gwerth £20

i'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.



CHWARAEON

Taith i Fflorida

Yn ystod hanner tymor yr Hydref fe gefais y cyfle i fod yn rhan o dîm rygbi dan 18 rhanbarth Sir Benfro a oedd yn cynrychioli Cymru ym Mae Tampa yn Fflorida. Ar ôl trip o 25 awr fe gafwyd croeso mawr ganddynt. Roedd y tywydd yn ardderchog gyda'r tymheredd dros 80°F. Fe chwaraeom ddwy gêm yn erbyn dau dîm gwahanol ac fe sicrhawyd record Sir Benfro o beidio colli ar daith trwy ennill y ddwy gêm.

Cawsom sioc fawr o weld safon y rygbi oedd yn cael ei chwarae yno – roeddent yn dimau mawr iawn a chryf o ran corff, ac yn chwarae rygbi o safon llawer uwch na beth oeddem yn ei ddisgwyl. Roedd yn brofiad ardderchog – wythnos orau fy mywyd!

Steffan Nutting



Gymnasteg



Llongyfarchiadau i dair merch o Ysgol Tal-y-bont ar eu llwyddiant gyda Chlwb Gymnasteg Aberystwyth yng Nghanolfan Hamdden Llanelli ar 16 Tachwedd. Enillodd Niamh O'Brian wobwr efydd fel unigolyn ac fel aelod o dîm. Enillodd Zoe Forster-Brown y wobwr aur fel aelod o dîm. Yn cymryd rhan hefyd oedd Keira Forster-Brown. Da iawn chi, ferched.

CANOLFAN
M.O.T.

HUW
LEWIS

M.O.T.
CENTRE

TEIARS

HUW
LEWIS

TYRES

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

Glanyrafon

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK

Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM



BFGoodrich



KUMHO TYRES

Ffôn 01970 636774

Rhodfa'r Parc

Diwedd Cyfnod



Ar ôl dod i'r ardal hon yn 1975 i weithio ym Mhlas Einion, Ffurnais – a oedd ar y pryd yn Ganolfan Astudiaethau Gwledig yn perthyn i awdurdod addysg yn Llundain – bu John Roberts yn trefnu teithiau cerdded a gweithgareddau awyr-agored am flynyddoedd lawer, a chafodd cannoedd o blant a phobl ifanc lleol gyfle i fanteisio ar ei arbenigedd a'i sgiliau. Yn 1987 symudodd ef a Jill i Felin-fach, Tal-y-bont, ac yn 1990 ailgodwyd y Felin Lifio yno i gartrefu pobl a ddeuai ar gyrsiau a drefnid ganddynt. Nawr, ar ôl 45 mlynedd, maent wedi ymddeol o'r gwaith a gwahoddwyd John i ysgrifennu ychydig eiriau i Papur Pawb. Dymunwn yn dda i'r ddau yn eu hymddeoliad.

Ar ôl tua 45 o flynyddoedd yn trefnu ac yn arolygu cyrsiau mynydda, rydym wedi penderfynu ymddeol. Rydw i ar fin cyrraedd oed yr addewid er bod Jill, fel Myrddin, yn mynd yn iau o flwyddyn i flwyddyn!

Ar un adeg, roedd delio gyda rhywun â'i 'bendics wedi byrstio yn Lluet y Rhos, neu'n dioddef ffit epileptaidd yn Bwlchystyllen, neu gael ein galw at rywun oedd mewn coma oherwydd alergedd i gnau, i gyd yn rhan o ddiwrnod gwaith arferol. Ar gyfer hyn mae angen pen clir a phâr o goesau cyflym. Rydym wedi penderfynu ei bod yn bryd i ni roi'r gorau iddi.

Dros y blynyddoedd rydym wedi teithio gyda tua 20,000 o blant a phobl ifanc ar fryniau a mynyddoedd yng ngwledydd Prydain ac Ewrop. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl yn yr ardal hon heb help a chydweithrediad y ffermwyr. Mae'r rhan fwyaf o'n cleientiaid wedi dychwelyd adref gydag agweddau positif iawn tuag at Gymru a'i phobl. Yn aml iawn, uchafbwynt eu hymweliad oedd cwrdd â ffermwr lleol oedd yn dangos diddordeb yn eu taith ac yn cynnig help a chyngor. Dyna i chi ffordd wych o hysbysebu eich cynnyrch – mae'n bosib y bydd y bobl hynny bellach yn prynu cig o Gymru yn hytrach nag o Seland Newydd!

O hyn ymlaen, byddwn yn trefnu teithiau ar ein cyfer ni'n hunain yn unig, gyda thrip hir arall i fyny Afon Gambia yn yr arfaeth. Bellach, mae Jill wedi dysgu peidio â phlygu dros yr ochr pan fydd hi mewn canŵ ar ddŵr lle mae 'na grocodeilod! Byddwn hefyd yn dychwelyd i'n hoff fannau yn yr Alpau a'r Pyrenees. Ac yn olaf, ar wahoddiad ein meibion Gareth a Deri, byddwn yn mynychu gwyliau cerdd gwych a gwachul!

Rydym wedi gorfod cyfaddawdu mewn un peth oherwydd ein hoedran. Ar ôl bod yn gwersylla'n ddiweddar ar arfordir Norfolk mewn pabell mor isel fel bod yn rhaid cropian i mewn iddi, gan ddioddef corwyntoedd a glaw yn disgyn fel hen wragedd a ffyn, rydym wedi penderfynu ei bod yn hen bryd i ni brynu pabell y gallwn sefyll lan ynddi! Er mwyn talu am y moethusrwydd hwn, rydym wedi cyfuno ein lwfans gwresogi i'r henoed, ac yn gwisgo rhagor o ddillad. Gyda thipyn o lwc, a iechyd, bydd bywyd yr un mor gyffrous ag o'r blaen!

John Roberts